# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

# - Dogfennau Ategol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(13.30-14.30) (Tudalennau 1 - 4)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Chris Warner - Llywodraeth Cymru

Ed Sherriff - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil

Dadansoddiad o'r arolwg [Saesneg yn unig]

Y wybodaeth ddiweddaraf am Brexit [Saesneg yn unig]

Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE: adroddiad monitro [Saesneg yn unig]

Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch gweithgarwch parodrwydd Llywodraeth Cymru - 15 Medi 2020

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru

15 Medi 2020

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithgarwch parodrwydd Llywodraeth Cymru dros yr haf. Mae'r llythyr hwn yn ymdrin â'r prif feysydd gwaith yn ymwneud â pharodrwydd gan gynnwys:

- Gwaith gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys Model Gweithredu'r Ffin;
- Camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar barodrwydd;
- Deddfwriaeth.

Wrth i'r negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd barhau, erys llawer iawn o ansicrwydd ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Ar ei orau, mae'r dull y mae Llywodraeth y DU wedi'i fabwysiadu, sy'n blaenoriaethu'r syniad o sofraniaeth dros anghenion yr economi a'n cymunedau, yn golygu y bydd gan y DU berthynas economaidd a chymdeithasol llawer llai agos â'r UE. Gydag ychydig dros dri mis tan ddiwedd y cyfnod pontio a gwahaniaethau sylfaenol yn parhau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, mae'r risg y bydd y DU yn masnachu gyda'r UE o dan ddim mwy na'r telerau masnach cyffredinol fel y'u nodwyd gan Sefydliad Masnach y Byd yn parhau i fod yn anghyfforddus o uchel.

Gyda Llywodraeth y DU yn diystyru'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod pontio, yr unig sicrwydd sydd gennym yw y bydd newidiadau sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gwaith gyda Llywodraeth y DU**

Rydym wedi parhau i bwysleisio'r angen i Lywodraeth y DU weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig i gynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Gwnaethom ddysgu o'r gwaith cynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb bod cydweithio effeithiol a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol yn hanfodol er mwyn i bob rhan o'r DU fod mor barod â phosibl ar gyfer y newidiadau yn ein perthynas â'r UE ar ddiwedd y flwyddyn eleni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er y bu’n amlwg ers peth amser bod Llywodraeth y DU yn datblygu cyfres o brosiectau blaenoriaeth, dim ond ar ddechrau'r haf y rhannwyd y rhain gyda’r Llywodraethau Datganoledig - pedwar mis wedi inni ofyn am gael eu gweld. Mae gennym bellach fanylion am tua 70 o'i phrosiectau parodrwydd yr aseswyd sydd â buddiant datganoledig o ryw fath. Rydym yn awr wedi gallu creu cysylltiadau ag adrannau arweiniol a dechrau gweithio ar lefel swyddogol ar y camau sy'n ofynnol gan holl lywodraethau'r DU.

Fodd bynnag, gwyddom fod llawer mwy o brosiectau nad ydym wedi cael eu gweld eto. Mae hyn wedi llesteirio ein gallu i ddeall unrhyw ryngddibyniaeth rhwng prosiectau a'n gallu i weld y gwaith hwn fel rhaglen gyflawn o weithgarwch yn hytrach na chyfres o brosiectau ar wahân. O ganlyniad i bwysau parhaus gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, mae Llywodraeth y DU bellach wedi ymrwymo i rannu rhyw lefel o fanylion am ei rhaglen barodrwydd gyffredinol. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU bellach wedi cadarnhau y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd i holl gyfarfodydd y Bwrdd Portffolio Pontio (fforwm trawslywodraethol y DU i ddod â’r holl waith pontio ynghyd). Dim ond yn fisol yr estynnwyd gwahoddiad i swyddogion cyn hyn.

Ar lefel weinidogol, rydym unwaith eto wedi bod yn galw am well ymgysylltu a phenderfyniadau ar y cyd. Dros yr haf rwyf wedi galw yn fynych ar Lywodraeth y DU i wahodd Gweinidogion Cymru i is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth y DU er mwyn cynllunio diwedd y cyfnod pontio (XO) – fel y sefyllfa yn ail hanner y llynedd. Mae Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn wedi cytuno'n ddiweddar y bydd gweinidogion o'r Llywodraethau Datganoledig yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd perthnasol yr is-bwyllgor XO. Er mwyn ategu presenoldeb yn XO, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd pedairochrog dan arweiniad y Tâl-feistr Cyffredinol i drafod materion parodrwydd.

Rydym yn croesawu ymrwymiadau Llywodraeth y DU – er mor hwyr - y bydd yn cynyddu ei chyfathrebu a'i hymgysylltiad â ni, a byddwn yn pwyso arnynt i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cyd-fynd â newidiadau amlwg yn y modd y maent yn ymgysylltu ac yn cydweithio â ni.

<u>Model Gweithredu’r Ffin</u>

Fe wnaethoch ofyn yn benodol hefyd am ein hymwneud â Chynllun Gweithredu’r Ffin drafft Llywodraeth y DU cyn iddo gael ei gyhoeddi. Ychydig iawn o fewnbwn uniongyrchol a gafodd Llywodraeth Cymru yn natblygiad Model Gweithredu’r Ffin a chyn ei gyhoeddi dim ond ychydig iawn o amser a roddwyd inni roi sylwadau ar y cynnwys. Yn anochel felly, roedd hyn yn effeithio ar ba raddau yr oedd hi’n bosibl inni graffu ar y ddogfen. Yn y bôn, cawsom gyfle i roi sylwadau ar y testun yn hytrach na bod yn rhan o broses gydweithio wirioneddol ar faterion yn ymwneud â'r ffin. Serch hynny, adlewyrchwyd nifer o'n sylwadau gan gynnwys:

- Cydnabod gwiriadau milfeddygol swyddogol ar gynhyrchion anifeiliaid a allforiwyd
- Esbonio bod gwastraff yn nwyddau at ddibenion trefniadau ar y ffin
- Cydnabod rhwymedigaethau Confensiwn Basel (cludo gwastraff)
- Cydnabod rôl y Llywodraeth Ddatganoledig mewn perthynas â mewnforio plaladdwyr

Rhannwyd y copi diweddaraf o Fodel Gweithredu’r Ffin gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Yn ôl yr amserlenni presennol, y bwriad yw y bydd y Model Gweithredu yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol ddechrau mis Hydref, yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid ganol mis Medi. Mae'n debygol mai hon fydd fersiwn derfynol y Model Gweithredu cyn diwedd y cyfnod pontio. Rhoddwyd tua thri diwrnod gwaith i'r Gweinyddiaethau Datganoledig i roi sylwadau ar y drafft newydd, yn ogystal â chyfres o

ddogfennau ategol a fydd yn cael eu hymgorffori yn ddiweddarach yn y Model Gweithredu. Er bod hyn yn sefyllfa ychydig yn well na'r cylch ymgysylltu blaenorol, rydym yn dal i fod o'r farn bod cyfnod amser o'r fath yn annigonol at ddibenion cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r cynigion a amlinellwyd yn y Model Gweithredu, y mae sawl un ohonynt yn gorgyffwrdd â meysydd cyfrifoldeb datganoledig. At hynny, cawsom ein siomi unwaith eto gan y rôl adweithiol a chyfyngedig a gynigiwyd inni wrth ddatblygu'r Model Gweithredu, yn hytrach na gallu cyd-ddylunio telerau trefn ffiniau ar ôl y cyfnod pontio a fyddai wirioneddol ar sail y DU gyfan. Serch hynny, cafodd ein timau polisi gyfle i roi eu barn ar y newidiadau diweddaraf i'r Model Gweithredu, ac roeddem yn falch bod ein cydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu gwerthuso goblygiadau'r trefniadau arfaethedig o safbwynt mwy gweithredol. Cafodd yr ymatebion hyn eu coladu gan y tîm canolog a'u trosglwyddo trwy'r dulliau perthnasol yn Defra; rydym bellach yn aros i'r Model Gweithredu gael ei gyhoeddi i asesu i ba raddau y cafodd ein cyfraniadau eu cynnwys.

**Gwaith cynllunio diwedd y cyfnod pontio Llywodraeth Cymru**

Yn ogystal â gwaith ar y cyd ar brosiectau'r DU gyfan rydym hefyd wedi bod yn datblygu camau gweithredu penodol i Gymru i helpu i reoli ein heconomi, ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus hyd diwedd y cyfnod pontio. Er y bydd llawer o'r gweithgarwch hwn yn gyfarwydd i'r Pwyllgor o'r cynllun gweithredu ar gyfer ymadael heb gytundeb a gyhoeddwyd y llynedd, mae'n bwysig tynnu sylw at ddau ffactor arwyddocaol sy'n newid y gofynion cynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod pontio o'i gymharu â chynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb yn 2019.

Yn gyntaf, p'un a gyrhaeddir cytundeb ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol ai peidio, fe ddarparodd y Cytundeb Ymadael rai mesurau diogelu pwysig gan gynnwys mesurau'n ymwneud â hawliau dinasyddion sy'n golygu bod y risgiau y bydd niferoedd mawr o ddinasyddion y DU yn dychwelyd i'r DU yn llawer llai. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o'r camau a fyddai wedi bod yn angenrheidiol yng nghyd-destun cynllunio at sefyllfa ymadael heb gytundeb y llynedd bellach yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Yn ail, mae COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar gymdeithas, yr economi a gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad, mae llawer o'r camau ymadael heb gytundeb sydd â'r nod o liniaru'r dirywiad economaidd a ragwelir ac amddiffyn cymunedau sy'n agored i niwed rhag effaith ymadael heb gytundeb y llynedd eisoes wedi'u defnyddio fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

Gan adlewyrchu'r amgylchiadau rydym yn disgwyl eu hwynebu ar ddiwedd y cyfnod pontio, rydym wedi nodi amryw o gamau gweithredu penodol i Gymru sy'n debygol o fod eu hangen yn ychwanegol at yr ymyriadau sydd ar waith ar draws y DU. Bydd angen rhaglen o gamau gweithredu i adlewyrchu natur unrhyw gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r UE ar y berthynas yn y dyfodol ac ategu polisi presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys gwaith adfer yn dilyn COVID-19. Bydd adroddiad pellach ar y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach eleni.

**Deddfwriaeth**

Fel y nodais yn gynharach eleni, bydd angen llawer iawn o is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd y cyfnod pontio. Mae COVID-19 hefyd wedi cael effaith fawr ar y maes gwaith hwn.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf sydd gennym o offerynnau statudol Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn ymwneud â threfniadau pontio'r UE, yn arbennig yn ymwneud â chywiriadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir, ac ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Ymadael a Chytundeb Gwahanu AEE/EFTA a'r Cytundeb ar

Hawliau Dinasyddion Swisaidd, bydd angen cydsyniad ffurfiol ar gyfer tua 45 o offerynnau statudol y DU drwy ohebiaeth â Gweinidogion Cymru.

Mae amserlenni bras yn cael eu diwygio gan Lywodraeth y DU ac rydym wedi ceisio sicrwydd na fydd y rhaglen yn cael ei chywasgu ymhellach tua diwedd y flwyddyn.

Mae gennym lawer llai o sicrwydd o ran y ddeddfwriaeth i weithredu cytuniad posibl ar y berthynas â’r UE yn y dyfodol ac ar gyfer Cytundebau Masnach Rydd gyda thrydydd gwledydd. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch Offerynnau Statudol yn ymwneud â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Rydym yn dal i bwyso am ragor o fanylion gan Lywodraeth y DU o ran sut y gellir pasio’r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Mae darparu’r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn llwyddiannus yn mynnu dull gweithredu, neu o leiaf yn mynnu dealltwriaeth, ar draws y DU, ac ni ellir cyflawni hyn heb gydweithrediad Llywodraeth y DU.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod tua 30 o offerynnau statudol Cymru i’w gwneud i gyflawni cywiriadau pellach a gweithredu’r Cytundeb Ymadael, cytundebau perthnasol, a threfnau domestig ar ôl y cyfnod pontio, er y gall hynny newid yn dilyn trafodaethau pellach ynghylch Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Fel gyda’r rhaglen flaenorol ar gyfer cywiro offerynnau statudol, bydd nifer ohonynt yn ddibynnol ar yr hyn sydd wedi’i gynnwys yn neddfwriaeth y DU ac felly bydd yr amseru wedi’i effeithio gan ddatblygiadau mewn mannau eraill.

Edrychaf ymlaen at drafod manylion ein gwaith parodrwydd gyda chi ar 17 Medi.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition